AM DDIM

Cyfnodolyn Synod Cymru Yr Eglwys Fethodistaidd

Rhifyn 221 Hydref – Tachwedd 2019

# Gwyliedydd





# O'R GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig **Jennifer Hurd**

"Felly beth yw'r stori?" Fel y dywedodd y Diacon Jon Miller yn rhifyn diwethaf y *Gwyliedydd*, wrth sôn am y Gynhadledd Fethodistaidd yn Birmingham yn ystod yr haf, dyna yw thema Llywydd ac Is-lywydd y Gynhadledd eleni. Mae'r Parchedig Ddr Barbara Glasson a'r Athro Clive Marsh yn ein hannog ni i ddweud ein straeon – a'r straeon hynny yn rhan o stori fawr Duw. Mae pawb yn hoffi stori dda, ac yn wir, dyna un o'r prif ffyrdd – os nad *y* brif ffordd – rydym ni'n cyfathrebu. Weithiau, byddaf yn dweud nad **oes** dim byd arall ar wahân i straeon. Dyna pa mor bwysig yw stori.

Yng Ngŵyl Greenbelt, yr ŵyl gelfyddydau Gristnogol, penwythnos Gŵyl Banc mis Awst eleni, roedd pabell neu fan cyfarfod newydd o'r enw y 'Foundry'. Noddwyr y 'Foundry' oedd yr Eglwys Fethodistaidd. (Gwobr i'r person cyntaf sy'n gallu dweud pam mae'r enw yn arwyddocaol i Fethodistiaid!) Lle arbennig ar gyfer sgwrsio oedd y 'Foundry', yn anffurfiol dros baned neu yn fwy ffurfiol fel rhan o sesiwn trafod. Roedd Clive a Barbara o gwmpas trwy'r penwythnos cyfan, yn dweud straeon ac yn gwrando ar straeon. Maen nhw wedi cyhoeddi llyfr hefyd, o'r enw *So What's the Story? A Resource Book for Christian Reflection and Practice* (DLT, 2019). Mae gan bob Arweinydd Ardal yng Nghylchdaith Cymru gopi erbyn hyn, yn y gobaith y bydd grwpiau yn cael eu creu i drafod y llyfr a bwrw ymlaen efo rhannu ein straeon. Tipyn o hwyl ar gyfer nosweithiau tywyll y gaeaf!


A dweud y gwir, wrth inni ddarllen y *Gwyliedydd*, mae'n amlwg ein bod eisoes yn dda am ddweud ein straeon. Sylfaen dda ar gyfer datblygu ein sgiliau yn y maes! Wedi'r cwbl, beth yw colofn reolaidd y *Gwyliedydd* 'Capel Ni yn Eglwys Iesu' ond dweud straeon am fywyd ein cymunedau ffydd? Er bod llawer o erthyglau ardderchog eraill yn y cylchgrawn (dydw i **ddim** yn cyfeirio at y golofn hon!), hoff ran y *Gwyliedydd* i lawer o bobl yw 'Capel Ni' a dyna lle bydd amryw ohonom yn troi gyntaf. Rwyf hyd yn oed wedi clywed ambell un yn dweud mai dyna'r **unig** ran o'r *Gwyliedydd* y byddant yn ei darllen! (Nid chi, rwy'n siŵr!)

Thema Synod a Chylchdaith Cymru eleni yw 'Estyn Allan i'r Gymuned,' ac mae'n braf gweld sut mae straeon 'Capel Ni' yn dangos gwahanol ffyrdd y mae capeli eisoes yn estyn allan i'w cymunedau. Hefyd, mae'r straeon yn gallu bod yn ysbrydoliaeth i gapeli eraill roi cynnig ar ryw ymdrech neu weithgaredd newydd – "Mae capel fan-a'r-fan wedi gwneud y peth-a'r-peth i estyn allan i'r gymuned: pam na wnawn ninnau drio rhywbeth tebyg?" Dyna nerth a phŵer dweud ein straeon: maen nhw'n ein hatgyfnerthu ni ac yn cyfoethogi ein profiad Cristnogol. Rhywbeth arall sy'n fy nharo fi am straeon 'Capel Ni' yw'r ffordd maen nhw'n cytgordio â themâu 'Ein Galwad,' sef blaenoriaethau'r Eglwys Fethodistaidd: Addoli, Dysgu a Gofalu, Gwasanaethu ac Efengylu. Darllenwch 'Capel Ni' drwy lens themâu 'Ein Galwad,' ac fe welwch beth sydd gen i.

Mae straeon eraill o dan themâu 'Ein Galwad' yn cael eu dweud ar hyn o bryd hefyd wrth i bob capel yn y Gylchdaith gymryd rhan yn ein Harchwiliad Cenhadaeth, proses sydd wedi bod yn digwydd ers mis Mai ac a fydd yn mynd ymlaen tan y Nadolig. Rydym wrthi'n dweud stori Cylchdaith Cymru, trwy fywyd ein capeli, er mwyn i ni hel gwybodaeth i'n helpu i gynllunio ar gyfer cenhadaeth y dyfodol. Dyna nerth a phŵer straeon. Ydi hi'n ormod dweud nad oes dim byd yn digwydd yn y byd heb straeon?

Os nad yw llyfr Barbara a Clive, *So What's the Story*, yn apelio fel adnodd i'n helpu ni i ddweud ein straeon, mae adnodd gwych arall ar gyfer grwpiau bach ar gael o'r enw *Sôn am Iesu*. Unwaith eto, mae gan holl Arweinyddion Ardaloedd Cylchdaith Cymru gopi i'w ddefnyddio, a gobeithio y byddant yn gwneud! Os ydym yn meddwl am estyn allan i'r gymuned mewn gair a gweithred, mae dweud ein stori – stori Iesu yn ein bywydau ni – yn ffordd ffantastig i'w wneud. Mae gan bob un ohonom ni stori i'w dweud am ein ffydd a sut y datblygodd ein ffydd a sut y mae ein ffydd wedi ein cynnal a'n herio a'n cysuro a'n sbarduno ni ar hyd ein hoes. Does dim byd mwy diddorol (i mi, beth bynnag!) na stori bersonol. Mae'n siŵr ein bod ni i gyd dipyn bach yn chwilfrydig, yn fusneslyd, am fywydau pobl eraill, fuaswn i'n dweud!

Awn ati i ateb y cwestiwn, "Felly, beth yw'r stori?" Dywedwn ein straeon, sy'n rhan o stori fawr Duw, yn y byd, yn ein bywydau, yn ein capeli, yn ein cymunedau. Bydd y rhain yn straeon gwir, a bydd pobl yn barod i wrando.



Y Cadeirydd yn pregethu yn y gwahanol Ardaloedd

**Hydref**
6 Dyffryn Conwy
13 Ceredigion
20 Gwyliau
27 Glannau Maelor

**Tachwedd**
3 De Gwynedd (ar gael yn y bore)
10 Ar gael
17 Glannau Meirion a Dyfi
24 Glannau Maelor

Gweddïwn am fendith Duw ar ymweliadau'r Cadeirydd ac ar bawb sy'n pregethu'r Efengyl.

Synod Cymru

# Gwyliedydd

**CYFNODOLYN SYNOD CYMRU
YR EGLWYS FETHODISTAIDD**
Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 221
HYDREF – TACHWEDD 2019**

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru. 6 rhifyn drwy'r post £5.

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**

**GOLYGYDDION
ROBIN JONES**
LLYS ALAW,
18 STAD ERYRI
BETHEL,
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn 01248 670140
Ffôn symudol 07780 869907
e-bost robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA,
GWYNEDD
LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
Ffôn symudol 07554 958723
e-bost ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk

**DYDDIAD CAU**
1 MEDI 2019

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "Yr Eglwys Fethodistaidd – Talaith Cymru"

Dyluniwyd gan Elgan Griffiths
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa

Lluniau'r clawr gan Hywel Evans:
**Croesawu'r Parchg T. Hoggard, Arolygydd newydd Cylchdaith Cymru**



## Yn Eisiau

Gofalwr i gapel
Bethel, Prestatyn
Tŷ ar gael am rent rhesymol
gyda'r swydd
Am fwy o fanylion e-bostiwch:
**tycapelbethel@
outlook.com**

Ieuenctid Methodistiaidd Cymru
momentwm
Methodist Youth Wales

Trefnir Taith Gyfnewid yr haf nesaf i Jefferson City, Missouri. Cynigir cyfle i 10 o bobl ifanc, 17-23 oed, o Gymru gymryd rhan. Os hoffech wybod mwy, cysylltwch â'r Diacon Jon (deacon.jon@gmail.com gan roi Cyfnewid Momentwm fel testun yr e-bost).

## Rhoddion

Diolchwn yn gynnes unwaith eto am y rhoddion caredig a ganlyn, a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r Gwyliedydd.

| | |
|---|---|
| Dienw | £50-00 |
| M Tüzüner, Y Felinheli | £10-00 |
| M Thomas, Penmachno | £10-00 |
| Y Tabernacl, Llanarmon Dyffryn Ceiriog | £40-00 |
| **Cyfanswm** | £110-00 |

## Merched Methodistaidd

Cynhelir cyfarfod yr hydref
yn Salem, Rhyd y Foel
am 2.30 ar ddydd Sadwrn 12 Hydref
yng nghwmni Nikki Booth, swyddog codi arian Gweithredu dros Blant.



## Diolchgarwch

Ein Tad nefol, rwyt ti wedi rhoi i ni fendithion di-ri. Gofynnwn yn ostyngedig iawn am un fendith arall sef calon i fod yn ddiolchgar amdanynt. Amen.

# Cnoi Cil

gan Gwyndaf Roberts



O edrych yn fras drwy *Caneuon Ffydd* fe welir bod o leiaf 16 emyn Cymraeg a 4 emyn Saesneg yn y gyfrol a gyfansoddwyd gan aelodau o'r Eglwys Gatholig Rufeinig. Y cynharaf o'r emynau hyn yw cyfieithiad rhagorol Rowland Fychan, Caer-gai, Llanuwchllyn o emyn Lladin o'r 9fed ganrif *Tyrd, Ysbryd Glân i'n c'lonnau ni* (CFf 571). Fel Brenhinwr ac Eglwyswr pybyr ac un a ddioddefodd ymosodiad gan filwyr Cromwell, gellir gweld ei fod yn cyd-fynd yn llwyr â'r awdur gwreiddiol wrth ganu *Gwasgara di'n gelynion trwch, a heddwch dyro inni.*

Emyn Lladin o'r 18fed ganrif yw *O tyred di Emanŵel* (CFf 432) a gyfieithwyd gan J D Vernon Lewis (1879-1970). Bu'n weinidog gyda'r Annibynwyr yn Lerpwl, Wrecsam a Brynaman cyn dod yn athro yng Ngholeg Coffa Aberhonddu ac yna'n brifathro cyn ymddeol i Aberllefenni ac yna Machynlleth. Un o emynau mawr tymor yr Adfent ydyw, gydag ymbiliau yn y penillion i Flaguryn Jesse, Seren Ddydd, Fab Dafydd a'r Arglwydd ddod atom o'r newydd.

Un o seintiau mawr yr Eglwys oedd Ffransis o Assisi (1181-1286). Efelychiad o'i emyn gan un o feirdd mwyaf Cymru sef T Gwynn Jones (1871-1949) a welir yn CFf 134, *Popeth a wnaeth ein Duw a'n Rhi*. Mae Delyth Morgans yn *Cydymaith Caneuon Ffydd* yn awgrymu bod Ffransis wedi ysgrifennu'r emyn flwyddyn cyn ei farw a hynny dan amgylchiadau annifyr iawn. Gweddi gan Ffransis, *Iôr gwna fi'n offeryn dy hedd* (CFf 868) sy'n sail i gyfieithiad Siân Rhiannon o waith gwreiddiol Sebastian Temple (1928-97), gŵr a fu'n ohebydd i'r BBC ac a drodd at y ffydd Gatholig yn Hollywood. Sefydlodd genhadaeth ym Mecsico gan ddilyn y ffordd Ffransisgaidd o fyw. Mae'r emyn yr adran Saesneg CFf, rhif 960.

Un a gafodd le amlwg yn y newyddion yn ddiweddar yw'r Cardinal John Henry Newman (1801-90). Ymhlith ei waith fel bardd ac emynydd mae'r gerdd hir a gyfansoddwyd ganddo yn 1866 sef *Breuddwyd Gerontius.* Ysbrydolodd y gerdd hon Syr Edward Elgar (1857-1934) i gyfansoddi ei oratorio yn 1900. Mae saith rhan i'r gerdd sy'n disgrifio dyn ar farw yn gweddïo ac yn clywed ymatebion angylaidd a dieflig. Fe geir hefyd drafodaeth ar y gred Gatholig am y llwybr o farwolaeth i baradwys a'r purdan. Fe wêl rhai ddylanwad gwaith Dante, a fu'n disgrifio'r daith drwy dir y meirw, ar gerdd Newman. Darn allan o'r Freuddwyd yw'r emyn *Boed mawl i Dduw gan engyl nef* (CFf 491). Gwaith gweinidog gyda'r Annibynwyr sef Hawen (David Adams 1845-1922) yw'r cyfieithiad ac mae Siôn Aled wedi gwella ar waith Hawen yn y drydedd bennill. Gellir gweld yr emyn Saesneg gwreiddiol yn CFf 875.

Emyn mwyaf adnabyddus Newman heddiw yw *Yng nghanol nos, oleuni mwyn y nef, O arwain fi* (CFf 773). Ceir yr emyn Saesneg yn CFf 994. Yn 1832 bu Newman ar daith i rai o wledydd Môr y Canoldir a thra yno bu'n bur wael. Ar ei ben ei hun ar fwrdd llong yn cludo bananas y cyfansoddodd yr emyn sy'n ymbil am arweiniad Duw.

Ganwyd Newman yn Llundain i deulu lled gyfoethog. Roedd ei dad yn fancwr yn y ddinas. Bu'r mab yn Ysgol Ealing cyn mynd ymlaen i Goleg y Drindod, Rhydychen. Roedd eisoes wedi cael profiad ysbrydol dwfn tra'n 15 oed ac wedi cyfnod yng Ngholeg Oriel, ordeiniwyd ef yn gurad yn 1824. Bu'n diwtor yn y coleg cyn dod yn ficer eglwys y Santes Fair, Rhydychen yn 1828. Yn Rhydychen daeth i gysylltiad â thri chlerigwr dawnus sef R H Froude (1803-36), John Keble (1792-1866) ac Edward Pusey (1800-82). Y bobl hyn ynghyd â Newman a ffurfiodd Fudiad Rhydychen gyda'r bwriad o berswadio Eglwys Loegr i ddarganfod o'r newydd athrawiaethau catholig y tadau eglwysig cynnar. Bu gwrthwynebiad enbyd ac roedd Newman yng nghanol yr helynt wrth iddo gyhoeddi cyfres faith o draethodau yn hybu syniadau'r Mudiad. Ysgogodd traethawd rhif 90 Newman ar 39 Erthygl Ffydd Eglwys Loegr storm fawr yn 1841 ac erbyn 1845 roedd Newman wedi gadael ac ymuno â'r Eglwys Gatholig.

Arhosodd Edward Pusey, athro yn Rhydychen ac arweinydd y Mudiad, yn aelod o Eglwys Loegr. Er bod yna gweryla mawr wedi bod fe lwyddodd y Mudiad i newid llawer o arferion yr Eglwys. Mae'r newidiadau hyn i'w gweld yn yr harddu a fu ar eglwysi hyd a lled y wlad. Fe hybwyd y defnydd o gerddoriaeth mewn gwasanaethau a rhoddwyd llawer mwy o bwyslais ar ganu emynau. Mae'r urddwisgoedd a welir yn yr eglwysi heddiw yn deillio o waith Mudiad Rhydychen.

Yn Rhufain ar Hydref 13 eleni fe fydd y Pab Ffransis yn canoneiddio Newman ac yn ei ddatgan yn sant. Mae'r pedwar cam sydd yn rhaid eu bodloni i ddod yn sant, sy'n cynnwys dwy wyrth, wedi cael eu derbyn fel rhai dilys gan y Pab. Bydd Catholigion yn llawenhau fis Hydref wrth i'r Prydeiniwr cyntaf ers 300 mlynedd gael ei ddyrchafu'n sant. Efallai y cawn ninnau nad ydym yn aelodau o'r Eglwys Gatholig weld y digwyddiad hwn fel dolen gyswllt â'r Seintiau Celtaidd a fu'n troedio llwybrau Cymru ganrifoedd maith yn ôl.



# O’r Pen Yma gan Angharad Tomos

Wedi Steddfod mor wlyb, daeth oes ein hen babell i ben, ac yn y bargeinion ddiwedd Haf, dyma gael bargen dda wrth brynu un newydd. Treuliais chwarter cyntaf fy mywyd yn carafanio efo fy rhieni, felly roedd cael pabell yn dipyn o antur. Wedi chwarter canrif arall o wersylla, mae aros mewn pabell yn dal i roi pleser i mi.

Wn i ddim beth yn union yw’r wefr – byw yn agos at natur, camu allan yn y bore i deimlo gwair dan fy nhraed, bwyta yn yr awyr agored, a’r newid o fyw mewn tŷ. Ac mae yna bleser ychwanegol, sef byw efo dim ond angenrheidiau bywyd. Yn fy nghartref, mae pob math o nialwch, ond yn y babell, dim ond gwely a bwrdd sydd ’na, a stof fechan i gael paned. Yn y bôn, dydych chi ddim angen dim byd arall (ar wahân i lyfr da).

Ond os ydw i wedi meistroli gwersylla, dydw i ddim wedi cael yr un hwyl ar fyfyrio, neu ‘ymwybyddiaeth ofalgar’ sef cyfieithiad o ‘mindfulness’. Mae yna bob math o lyfrau ar silffoedd ein siopau a’n llyfrgelloedd i’n helpu efo hyn, ac rydw i wedi trio yn galed. Mewn erthygl yn ‘O’r Pedwar Gwynt’, mae Angharad Penrhyn yn dweud hyn: ‘Mewn cymdeithas unigolyddol, yr unigolyn sy’n gyfrifol am ei iechyd meddwl.’ Arnoch chi mae’r diffyg, a mater i chi ydi canfod gwellhad. Ond mae hi’n troi y mater ar ei ben, ac yn holi falle nad yr unigolyn sydd yn sâl, ond y gymdeithas. Mae hynny wedi rhoi gwaith meddwl i mi.

Falle eich bod yn magu plentyn ar eich pen eich hun, ac yn ceisio cael dau pen llinyn ynghyd; falle eich bod yn ceisio cadw eich swydd a gofalu am riant efo dementia; falle nad oes gennych gyflog, ac mae talu rhent, a chael digon i dalu am fwyd yn straen; falle i chi gael codwm, ac yn methu gofalu amdanoch eich hun am gyfnod – mae’r rhain i gyd yn broblemau cyfarwydd o ddydd i ddydd. Mewn cymdeithas iach, byddai cymorth parod i bobl yn y sefyllfaoedd hyn, byddai amser i’w gael o’r gwaith, byddai gwasanaeth iechyd yn cael ei ariannu yn gywir, byddai amser i bobl fod yn gymdogion da, fyddai ddim y brys gwallgof ’ma ar bawb i weithio o naw tan bump a chynnal safon byw amhosibl.


Y Bregeth ar y Mynydd

Ia, y gymdeithas rydym yn byw ynddi heddiw sy’n sâl, a dyna sy’n peri i gymaint o bobl gael problemau iechyd meddwl. Mae’n gymdeithas wallgof sy’n caniatáu i rai pobl ennill cyflogau gwallgof, tra’n sathru eraill i’r llawr. Gwyddai Iesu hyn yn burion, a daeth i’n byd i roi golwg inni o deyrnas decach, trefn wedi ei sylfaenu ar gariad, nid trachwant. ‘Na chwennych’ yw un o’r deg gorchymyn. Falle ei bod hi’n bryd i minnau fodloni ar fywyd symlach, ac mai ‘gwely, bwrdd a Beibl’ (chwedl Tecwyn Ifan) yw unig wir anghenion bywyd.

# GAIR BACH

gan y Parchedig John Pritchard, Llanberis



**Disgyblion Crist**

Mis Medi go wahanol fu hi acw. Am y tro cyntaf ers Ionawr 1988 does yna’r un plentyn ysgol yn ein tŷ ni. Daeth dyddiau ysgol y cyw melyn olaf i ben yr haf hwn. Nid bod pob sôn am ysgol yn darfod chwaith: mae ein hwyres ac un o’n hwyrion yn mynd i’r ysgol am y tro cyntaf. Y ddau yn ddigon o sioe yng ngwisgoedd eu hysgolion newydd. O’u blaen, gobeithio, mae blynyddoedd o ddysgu a datblygu pob math o ffeithiau a sgiliau.

Dal i ddysgu a wnaiff ein plant wedi dyddiau ysgol, ond bod disgybl yn troi’n fyfyriwr neu’n brentis neu’n weithiwr. Dal i ddysgu a wnawn ninnau mewn pob math o feysydd. Ac yn sicr, dal i ddysgu a wna dilynwyr Iesu Grist, beth bynnag eu hoed a faint bynnag sydd ers iddynt gredu ynddo a’i garu. I bobl Crist, nid oes diwedd i’r dysgu na’r dilyn mewn gyrfa oes o garu a gwasanaethu’r Gwaredwr.

Y mae gennym ninnau wisg. Ac fel y dywed Iesu ei hun, y mae i honno o leiaf ddau ddarn: dau beth sy’n dangos yn eglur mai ei ddisgyblion ef ydym. Mae a wnelo’r naill â gair Crist a’r llall â’n cariad ninnau.

Meddai Iesu, ‘Os arhoswch chwi yn fy ngair i, yr ydych mewn gwirionedd yn ddisgyblion i mi’ (Ioan 8:31). Mae ei ddisgyblion yn aros yn ei air; maent yn credu ei eiriau, yn ymddiried ynddynt ac yn ufuddhau iddynt.

‘Os bydd gennych gariad tuag at eich gilydd, wrth hynny bydd pawb yn gwybod mai disgyblion i mi ydych’ (Ioan 13:35). Mae ei ddisgyblion yn caru ei gilydd; a dangosir y cariad hwnnw trwy eu gofal am ei gilydd a’u daioni i’w gilydd.

Trwy lynu wrth ei eiriau a charu ein gilydd y dangoswn mai ei ddisgyblion ydym.

# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

### Ardal Dyffryn Conwy

**DIOLCH I'R DIACON JON MILLER**
Ar brynhawn Sadwrn Gorffennaf 6ed mwynhawyd te yn Horeb, Bae Colwyn, i ddiolch i Jon am ei holl waith yn ystod ei bedair blynedd yma yn Nyffryn Conwy. Cafwyd gair o ddiolch gan y Parchg Roger Roberts; gan Mr Dennis Roberts ar ran Bethel, Deganwy; a Mr Arfon Williams ar ran Horeb. Cyflwynwyd dau lun o'r Ardal iddo yn anrheg a basged o flodau i Rebecca, gan Llinos Garstang, goruchwylwraig Ardal Dyffryn Conwy. Dymunwn yn dda i Jon a'i deulu yn eu cartref a'u gwaith newydd yn ardal San Clêr. Diolch i bawb yn eglwysi Dyffryn Conwy am eich cefnogaeth i wneud y prynhawn yn llwyddiant.



### Eglwys Unedig Colwyn

**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL**
Diolch i Marian, Gwyddfid, Arfon, Ken ac Owen am eu gwaith caled yn gwneud paneidiau (am dair awr brysur) ym Mhabell Cytûn ar 8 Awst yn Eisteddfod Sir Conwy, Llanrwst.

**CYD-ADDOLI**
Yn ystod Awst buom yn ymuno â chyfeillion o wahanol Eglwysi'r fro a chawsom wasanaethau bendithiol yng nghwmni'n gilydd. Roedd yr oedfa yn Horeb ar 25 Awst dan ofal un o'n haelodau sef Mr Owen Morris. Diolch iddo am wasanaeth meddylgar a diddorol.

**CYFARFOD GWEDDI MISOL**
Trefnwyd y Cyfarfod Gweddi ym mis Medi gan Marian gyda'r thema 'Cychwyn Newydd'. Cymerwyd rhan gan Arfon a Rhiannon, gyda chyflwyniad gan Ken a Marian, a Mr Gwyn Jones wrth yr organ.

**PROFEDIGAETH**
Cydymdeimlwn â Gwenllian sydd wedi colli cyfnither annwyl iawn sef Mrs Arfona Rees Williams.

**GOHEBYDD .** RHIANNON JONES

### Preswylfa, Cyffordd Llandudno

**SULIAU UNDEBOL**
Cawsom Suliau Undebol bendithiol iawn yn ystod mis Awst yn y Capel Coffa, Pensarn a Phreswylfa gyda'r Parchedigion Gwynfor Williams, Eifion Wyn Williams ac Euron Hughes yn pregethu.

**CROESO**
Estynnwn groeso cynnes i'r Parchedig Trevor Hoggard a'i briod Cathy. Edrychwn ymlaen at gael cwmni'r Parchedig Hoggard i ofalu am Eglwys Preswylfa. Diolchwn yn gynnes iawn hefyd i'r Parchedig Peter Jennings sydd wedi gofalu amdanom yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

**GWELLHAD BUAN**
Dymunwn wellhad buan i'r aelodau a fu mewn gwaeledd, a'n dymuniadau gorau a'n cofion hefyd at Mrs Catherine Barnett.

**GOHEBYDD** . EIRIAN JONES

### Ebeneser, Eglwysbach

**GRADDIO**
Llongyfarchiadau i Miriam Hughes ar ennill gradd BSc gydag anrhydedd dosbarth cyntaf mewn Rheoli Eiddo yng Ngholeg John Moores, Lerpwl. Pob hwyl i ti yn dy swydd newydd fel syrfëwr graddedig gyda chwmni Jacobs,



**Miriam**

Manceinion, a hefyd yn dy gartref newydd. Llongyfarchiadau hefyd i Brenig Hughes ar ei ganlyniadau lefel A a dymuniadau gorau iddo ar gyfer ei gwrs yn astudio peirianneg yn Harper Adams.

**GOHEBYDD** . CHARLES CRAPPER

### Bethel, Prestatyn

**EFEILLIAID**
Llongyfarchiadau mawr i Laura a Paul ar enedigaeth dwy ferch fach - Marley a Willow - ddiwedd mis Awst. Chwiorydd bach i Palmer ydynt. Pob bendith a hapusrwydd i'r teulu. Edrychwn ymlaen at eu cyfarfod yn yr Ysgol Sul yn fuan.

**DYMUNIADAU GORAU**
Dymunwn adferiad buan i'r aelodau hynny sy'n methu mynychu'r oedfaon oherwydd gwaeledd; rydym yn eich cofio yn ein gweddïau. Bu Mrs Mair Davies yn yr ysbyty ond rydym yn falch o glywed ei bod yn gwella erbyn hyn.

**CYD-ADDOLI**
Yn ystod mis Awst buom yn cyd-addoli gyda'n cyfeillion o Eglwys Rehoboth.

**PANED A SGWRS**
Croeso cynnes bob amser i unrhyw un alw i mewn am baned ar fore dydd Mercher rhwng 10.00 a 11.30.

**Y BOCS BWYD**
Diolch o galon i'r holl aelodau sy'n dod â bwyd yn rheolaidd i'w roi yn y bocs bwyd yn y porth, ar gyfer Banc Bwyd Prestatyn.

**BLWYDDYN YSGOL NEWYDD**
Dymuniadau gorau i blant yr Ysgol Sul wrth iddynt ddechrau ar flwyddyn newydd yn yr ysgol. Mae Noa yn dechrau yn y Dosbarth Meithrin a Georgie, Joni a Lili yn dechrau yn y Dosbarth Derbyn. Dymuniadau arbennig i Emeilia a fydd yn dechrau yn Ysgol Glan Clwyd.

**GOHEBYDD** . GWENDA ROBERTS

### Ebeneser, Trefor, Môn

**LLWYDDIANT**
Llongyfarchiadau i Arwyn Foulkes ar ei ganlyniadau rhagorol yn yr arholiadau TGAU a dymuniadau gorau iddo yn y chweched dosbarth.

**GOHEBYDD** . CARYS THOMAS

### Ebeneser, Treuddyn

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn yn gywir iawn â Mrs Iris Roberts a'r teulu ar golli gŵr, tad a thaid.

Bu angladd Les Roberts yng Nghapel Ebeneser ar ddydd Mercher, Awst 21ain dan ofal y Parchedig Marc Morgan gyda Mrs Margaret Roberts wrth yr organ.

Hefyd, cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Mrs Jane Ann Roberts, sydd wedi colli ei gŵr, Norman Jackson Roberts. Cynhaliwyd Gwasanaeth Coffa yng Nghapel Ebeneser ar ddydd Mawrth, Awst 27ain dan arweiniad ein gweinidog y Parchg Eirlys Gruffydd Evans gyda chymorth y Parchg Huw Powell Davies a Mrs Margaret Roberts wrth yr organ. Anfonwn ein cofion cywiraf at yr holl deulu yn eu colled.

### TE PRYNHAWN
Cynhaliwyd ein Te Prynhawn blynyddol yn Hafan Deg ar ddydd Sadwrn, Medi 7fed. Diolch i bawb a'n cefnogodd.

### CYFARFOD PREGETHU
Ar nos Sul, Medi 8fed, y Parchedig Ddr Siôn Aled Owen, Wrecsam, oedd yng ngofal ein Cyfarfod Pregethu. Yn ôl yr arfer, gwasanaeth undebol oedd hwn a chroesawyd pawb yn gynnes i'r oedfa.

### Y DIOLCHGARWCH
Cynhelir ein gwasanaeth Diolchgarwch ar nos Sul, Hydref 13eg am 6 o'r gloch dan ofal y Parchedig Marc Morgan a bydd croeso cynnes i bawb ymuno â ni.

**GOHEBYDD** . GLENYS DAVIES

## Ebeneser, Dolgellau

### BEDYDD
Ar ddydd Sul 11 Awst cynhaliwyd gwasanaeth arbennig dan arweiniad y Chwaer Eluned Williams. Bedyddiwyd Guto Rhys, mab Gwawr a Siôn Williams, Bethesda, brawd bach Awel a Mared ac ŵyr Jane a Bryngwyn Thomas, Glanrhyd. Y rhieni bedydd oedd Llŷr Roberts a Gwenan Roberts.



### COFION
Rydym yn meddwl am Gwyneth Meredith a Marion Humphreys, nad ydynt yn mwynhau llawn iechyd ers rhai misoedd. Cofion cynnes atoch.

### CROESO ADREF
Croeso adref i'r Diacon Stephen Roe sydd wedi treulio pum wythnos yn Rwanda, yn ymweld â'r Eglwys Fethodistaidd Rydd yno.

### TRIP Y CAPEL
Ar 14 Medi fe gynhelir y wibdaith flynyddol.

**GOHEBYDD** . BERYL NORGROVE

## Pendref, Dinbych

### OEDFAON
Cynhaliwyd oedfaon bendithiol yn ystod Gorffennaf dan ofal y Parchedigion Peter Jennings, Tudur Rowlands a'r Canon Philip Williams. Yn ystod Awst cynhaliwyd oedfaon undebol yng nghapeli Dinbych; roedd y gwasanaeth yma ym Mhendref dan ofal y Parchedig Marc Morgan a safodd yn y bwlch gan i'r Parchedig Tudur Rowlands fethu â bod gyda ni oherwydd gwaeledd. Diolchwn o waelod calon i'r Parchedig Marc Morgan am ei wasanaeth. Gyrrwn ein dymuniadau am wellhad buan i'r Parchedig Tudur Rowlands.

### PENWYTHNOS ARBENNIG
Bydd Pendref ar agor yn ystod "Penwythnos Drysau'n Agored yn Ninbych" ar Fedi'r 28ain a'r 29ain a bydd croeso mawr i aelodau Cylchdaith a Synod Cymru ymweld â'r capel hanesyddol yma.

### EDRYCH YMLAEN
Edrychwn ymlaen at ymweliad *Capel* (Cymdeithas Treftadaeth y Capeli) â Phendref ar 12 Hydref, pan fydd y gymdeithas yn cynnal eu cyfarfod blynyddol. Edrychwn ymlaen hefyd at gynnal ein cinio blynyddol, dydd Sadwrn 9 Tachwedd ym Melin Brwcws. Byddwn yn cynnal ein Ffair Hydref ar 23 Tachwedd yng Nghanolfan Eirianfa, rhwng 10 ac 11 y bore.

*Dymuna'r golygyddion ymddiheuro i Mr Geraint Roberts, Dinbych, am gyhoeddi ei lun hyfryd o'r ddraenen wen yn ei blodau, o dan yr enw anghywir yn y rhifyn diwethaf.*

**GOHEBYDD** . MARY JONES

## Shiloh, Tregarth

### PYSGOTA
Llongyfarchiadau i Morgan Jones, mab Einir ac Aled, ar ei gyfweliad i raglen 'Heno', ar lan Afon Ogwen yng nghwmni Owain Tudur Jones. Siaradodd Morgan am y newid sydd wedi bod yn y blynyddoedd diwethaf yn y pysgota sydd i'w gael yn yr afon ac am y ffaith nad oes llawer o ieuenctid yn pysgota yno bellach. Ardderchog, Morgan.

### PRIODAS
Llongyfarchiadau i Hywyn Griffiths, mab Anwen a'r diweddar Tom Griffiths ar ei briodas ddiwedd mis Gorffennaf gyda Rebecca Dennis o Borthaethwy. Pob dymuniad da i chi eich dau yn eich cartref yn Nwygyfylchi.

### DYMUNIADAU GORAU
Gwellhad llwyr a buan i'n horganydd, Wynn Williams, sydd yn cael llawdriniaeth clun newydd. Cofion atoch gan bawb o'r aelodau. Dymunwn wellhad buan hefyd i'r Parchedig Gwynfor Williams, a gafodd lawdriniaeth yn ddiweddar.

### LLONGYFARCH EIN HIEUENCTID
Braf iawn ydi cael llongyfarch amryw o ieuenctid y capel ar eu llwyddiant diweddar. Llwyddodd Tomos Morris Jones yn ei arholiadau gradd ym Mhrifysgol Bangor a dymunwn yn dda iddo yn ei swydd newydd gyda 'Cwmni Da' yng Nghaernarfon. Llongyfarchiadau hefyd i Gwenno Kervegant sydd wedi graddio mewn Hanes ym Mhrifysgol Abertawe. Pob dymuniad da i ti yn dy astudiaethau pellach. Mae Esme Crowe hithau wedi llwyddo yn ardderchog yn ei harholiadau Lefel A ac am fynd ymlaen i astudio Busnes yn y Brifysgol yng Nghaerdydd. Ac yn dilyn llwyddiant ardderchog yn ei Lefel A mae Huw Morris Jones yn mynd i astudio Pensaernïaeth ym Mhrifysgol Lerpwl. Llongyfarchiadau mawr.

### DRWS AGORED
Bob bore Gwener mae drysau Shiloh ar agor i bawb a hoffai baned, sgwrs a chwmni rhwng 10 a 12 o'r gloch.
Un o selogion Drws Agored yw Bet Morris, a ddathlodd ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Diolch am eich cwmnïaeth, Bet.



Ym mis Medi mae blaenor hynaf Shiloh, sef Mrs Edith Hughes, yn dathlu ei phen-blwydd yn 99 oed. Mae Edith yng Nghartref Gofal Ceris, Bangor, ac anfonwn ein cofion ati ar achlysur arbennig iawn.

**GOHEBYDD** . GWENDA DAVIES

# RWANDA



## *gan y Diacon Stephen Roe*

Bob saith mlynedd, mae gweinidogion yn yr Eglwys Fethodistaidd ym Mhrydain yn derbyn rhodd gan yr eglwys – rhodd o gyfnod sabothol, sef tri mis i ffwrdd o ddyletswyddau arferol gweinidogaeth er mwyn cael amser i wneud rhywbeth gwahanol, rhywbeth nad oes digon o amser i'w wneud fel arfer. Yn ystod fy nghyfnod Sabothol eleni cefais gyfle i ymweld â'r Eglwys Fethodistaidd Rydd yn Rwanda, ac ymunodd Angela, fy ngwraig, â fi hefyd am ran o'r amser.

**Hanes**

Gwlad fach yn Nwyrain Affrica yw Rwanda, yn ffinio ar Bwrwndi, Tanzania, Uganda a Gweriniaeth Ddemocrataidd Congo. Mae gwreiddiau'r hil-laddiad dychrynllyd a ddigwyddodd yn y wlad yn 1994 yn mynd yn ôl canrifoedd. Cafodd pobl Rwanda eu rhannu yn 'Tutsi' a oedd yn weddol ffyniannus, a 'Hutu' a oedd yn llai cyfoethog. Seiliwyd y gwahaniaethau ar ddosbarth yn hytrach nag ar hil neu lwyth, ac roedd yn hollol bosibl felly symud o un grŵp i'r llall. Daeth Rwanda yn wladfa i'r Almaen yn y ddeunawfed ganrif, a chymerodd Gwlad Belg drosodd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Am resymau gweinyddol rhoddwyd cerdyn adnabod i bawb yn y 1930au, yn datgan a oedd y deilydd yn 'Tutsi' ynteu yn 'Hutu'. Rhoddodd y Belgiaid statws breintiedig i'r Tutsi sef y bobl gyfoethocaf. Ar ddechrau'r 60au enillodd Rwanda annibyniaeth ac fe gipiwyd y grym gan y mwyafrif, sef y Hutu. Dechreuodd ymgyrch o wahaniaethu yn erbyn y Tutsi ac yn 1994 fe ffrwydrodd hyn yn drais erchyll, pan laddwyd tua miliwn o bobl mewn cyfnod o dri mis.

**Cofio a Chymodi**

Mae cofebion i'r hil-laddiad i'w gweld ym mhobman. Y safleoedd a'm cyffyrddodd fwyaf oedd dwy eglwys lle ffodd miloedd o bobl am loches ond methu dianc rhag cael eu lladd. Er hynny, mae'n rhyfeddol sut mae'r wlad wedi ymadfer ers y digwyddiadau erchyll hyn. Rhoddwyd blaenoriaeth yn dilyn yr hil-laddiad i gymod a maddeuant, a hefyd ar yr un pryd i gyfiawnder a gwirionedd. Mae'r 'Good News Guest House', lle arhoson ni yn Kigali, yn cael ei redeg gan y Parch Ben Kayumba, fel modd i gynnal ei weinidogaeth i oroeswyr yr hil-laddiad. Ddwywaith y mis mae grŵp yn cyfarfod yn y gwesty ac, yn dilyn amser o addoliad, mae cyfle i oroeswyr rannu eu hanesion. Pan oeddwn i yno, clywais wraig yn disgrifio'r gamdriniaeth a ddioddefodd yn ystod, ac ar ôl, yr hil-laddiad. Deallais wedyn mai dyna oedd y tro cyntaf iddi agor ei chalon am y digwyddiadau hyn, a hynny wedi i bum mlynedd ar hugain fynd heibio. Mae peth fel hyn yn dangos pa mor bwysig ydy creu gofod lle mae pobl yn teimlo'n ddigon diogel i allu ymddiried eu storïau trawmatig a phersonol i eraill. Ar y Gofeb Genedlaethol fe welir y geiriau: Heb faddeuant does dim dyngarwch, heb gyfiawnder does dim maddeuant, heb ddyngarwch does dim cyfiawnder. Parodd imi fyfyrio ar y modd y mae cariad, maddeuant a chyfiawnder yn cyfarfod ym mherson Iesu ar y groes.

**Kibogora a Bywyd yn Rwanda**

Treulion ni'r rhan fwyaf o'n hamser yn Rwanda yn Kibogora, pentref yng ngorllewin y wlad ar lan Llyn Kivu. Mae'n lleoliad hyfryd dros ben, ac i Kibogora y daeth y cenhadwr Methodistaidd cyntaf i Rwanda yn 1942. Mae'r Eglwys yn cefnogi ysbyty a chanolfan iechyd, polytechnig a dwy ysgol. Arhoson ni yng Ngwesty'r Genhadaeth, sydd yn cynnig llety i ymwelwyr a hefyd i rai o dramor sydd yn gweithio am gyfnod yn yr ysbyty neu'r polytechnig. Cyfleusterau gofal iechyd gweddol sylfaenol sydd i'w cael ond gwnaeth y gofal oedd yn cael ei ddangos tuag at y cleifion gryn argraff arnom. Yn ogystal â gweithwyr iechyd roedd teuluoedd y cleifion yn gofalu am eu hangenrheidiau, gyda grwpiau o berthnasau i'w gweld y tu allan i bob ward. Mae Ysbyty Kibogora yn gwasanaethu nifer o ganolfannau iechyd yn yr ardal, rhai ohonynt dros awr i ffwrdd yn teithio ar ffyrdd anwastad, sydd yn anodd i gleifion gwael neu famau yn esgor, yn enwedig yn y tymor gwlyb.



Cafodd Ysgol Uwchradd Frank Adamson ei henwi ar ôl y cenhadwr Methodistaidd cyntaf yn Rwanda. Disgyblion preswyl yw'r rhan fwyaf o'r plant. Fe wnaethon ni gyfarfod ag amryw o'r rhieni, a sylweddoli eu bod yn gwneud aberth mawr er mwyn i'w plant gael mynd i ysgol neu brifysgol. Roedd pob ysgol

Llyn Kivu



yng nghanol tymor arholiadau pan ymwelsom ni â nhw, a doedd hi ddim yn bosibl felly gweld gwersi arferol. Yn anffodus, dinistriwyd ystafell gysgu'r merched mewn tân yn gynharach eleni, ac ar hyn o bryd mae'r merched yn gorfod cysgu mewn ystafell fach gyfyng, ond roedden ni'n falch o glywed bod yr ystafell gysgu yn cael ei thrwsio a'i hadnewyddu gyda chymorth gan yr Eglwys Fethodistaidd ym Mhrydain.
Mae'r Eglwys yn Kigali hefyd yn rhedeg Canolfan Amizero, sef ysgol ar gyfer plant sydd ag anghenion arbennig. Dydy'r plant hyn ddim yn derbyn llawer o gefnogaeth gan y wladwriaeth ac mae'r rhieni hefyd weithiau yn eu gweld yn achos cywilydd, fel ei bod yn well ganddynt eu cadw gartref, i ffwrdd o olwg y cyhoedd. Mae prosiectau fel Canolfan Amizero yn dechrau newid agweddau, er braidd yn araf. Da oedd gweld bod yr Eglwys yn ymwneud â'r mwyaf difreintiedig, gan ein hatgoffa o ofal Iesu dros yr esgymun.

**Ffydd ac Addoliad**

Mae ffydd yn dal i chwarae rôl ganolog yn Rwanda. Mae pob dydd yn y 'Mission Guest House', yr ysbyty, y Ganolfan Iechyd a'r polytechnig yn dechrau gyda defosiwn boreol ar gyfer y staff, am tua 7 o'r gloch. Un o'r gwahaniaethau mawr ydy ei bod yn olau rhwng 6 o'r gloch y bore a 6 o'r gloch y nos drwy'r flwyddyn, ac felly dyna pryd mae pawb yn weithgar. Does dim newidiadau tymhorol fel ym Mhrydain – y prif wahaniaeth ydy rhwng y tymor sych a'r tymor gwlyb. Cefais gyfle i arwain y defosiwn sawl gwaith, a dangosais Lawlyfr Gweddi'r Eglwys Fethodistaidd Brydeinig i bobl Rwanda, gan eu sicrhau ein bod ni'n gweddïo dros yr Eglwys Fethodistaidd Rydd yn Rwanda ar yr wythfed dydd o bob mis, sy'n digwydd bod yr un dydd ag rydyn ni'n cofio'r Eglwys Fethodistaidd yma yng Nghymru. Cefais y fraint hefyd o dderbyn gwahoddiad i bregethu mewn gwasanaethau yn Kibogora, Kigali, a Bigeyo, pentref pell yn y mynyddoedd yn ardal Kibogora. Roedd yr addoliad yn fywiog ac egnïol, gyda cherddoriaeth yn chwarae rhan bwysig, dan arweiniad Grŵp Addoli neu gôr oedd yn cynnwys aelodau'r gynulleidfa. Ond roedd gweddi yn llai pwysig nag oeddwn i wedi'i ddisgwyl, gyda mwy o bwyslais ar ddarllen y Beibl a myfyrio arno.

**Croeso Pobl Rwanda**

Un peth mawr sydd yn aros yn fy nghof ydy cwrteisi a charedigrwydd y rhai wnaethon ni gwrdd â nhw. Dyma ddwy stori fach sy'n dangos hyn. Ymwelais â thref Karembe, ar y ffin rhwng Rwanda a Congo. Yn ôl fy arfer, gofynnais i'r Parch Simeon, fy ngwesteiwr, a oedd yn iawn tynnu lluniau. Dywedodd wrthyf ei bod, ond yn anffodus doedd hi ddim! Daeth un o'r swyddogion ar y ffin ataf a gofyn am weld fy nghamera. Yn gwrtais ond yn gadarn, heb unrhyw dinc ymosodol, gofynnodd imi ddileu'r lluniau anghyfreithlon. Dro arall, aeth Angela a finnau i ymweld â thref Tyazo, ddim yn bell o Kibogora. Mewn siop fach, prynon ni ddefnydd er mwyn i Angela wneud ffrog ar ôl dod adref. Wrth gwrs, doedd gennym ni ddim clem beth fyddai'n bris teg, a buasai wedi bod yn hawdd i'r siopwr gymryd mantais arnom. Ond cawsom ein sicrhau gan ffrindiau yn ddiweddarach ei fod yn bris teg iawn.
Rydw i'n diolch i Dduw ac i'r Eglwys am y cyfle i ymweld â Rwanda yn ystod fy nghyfnod sabothol, am yr holl bethau newydd rydw i wedi'u gweld a'u profi, ac uwchlaw popeth arall am y croeso cynnes a haelionus a dderbyniais.

## SUT MAE GWEITHREDU DROS BLANT YN GWEITHIO

Hoffem ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at Gweithredu dros Blant, sydd wedi dod i law ers rhifyn diwethaf y Gwyliedydd:

| | |
|---|---|
| Shiloh, Tregarth | £50.00 |
| E.F. Unedig Colwyn | £150.00 |
| Eglwys Gymraeg St Paul, Aberystwyth | £32.00 |
| Pendref, Yr Wyddgrug | £50.00 |
| Ebeneser, Treuddyn | £20.00 |
| Margaret Morgan (am oedfa) | £30.00 |
| Ebeneser, Dolgellau | £100.00 |
| Penbryn, Treffynnon (casgliad rhydd) | £ 11.00 |

Anfonwyd cyfanswm o £443.00 yn enw Synod Cymru. Gyda diolch am bob cyfraniad.

Cynhelir gwasanaeth arbennig i ddathlu 150 o flynyddoedd ers i *Gweithredu dros Blant* ddechrau cynorthwyo plant, yng Nghadeirlan St Paul, Llundain ar nos Fercher 23 Hydref 2019.

***Ymgyrch Casglu Anrhegion Nadolig.*** Mae'r ymgyrch bellach wedi ei lawnsio. Edrychwch allan am y taflenni neu cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth.

Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan

Llety'r Bugail, 1 Cwrt Eden, Gwersyllt,
Wrecsam, LL11 4FF
☐ 01978 756717 ☐ cwrteden@gmail.com

# cartŵn



## Bethel, Rhiwbeina

### LLYWYDD Y GYMANFA GYFFREDINOL
Llongyfarchiadau i'n gweinidog, y Parchedig Evan Morgan, ar gael ei ethol yn Llywydd Cymanfa Gyffredinol Presbyteriaid Cymru ar gyfer 2020/21.

### CYFARFOD GYDA CHADEIRYDD Y SYNOD
Ar 23 Gorffennaf daeth y Parchg Jennie Hurd atom i drafod **Y Ffordd Ymlaen** i ni fel capel dros y pum mlynedd nesaf. Braf oedd gweld cynifer yn y cyfarfod. Fe gafwyd trafodaethau buddiol dan y pedwar pennawd – *Addoli*, *Dysgu a Gofalu*, *Gwasanaethu*, ac *Efengylu*.

### COFIO AELOD
Trist oedd clywed am farwolaeth un o'n haelodau hynaf, Mr Ken Wlliams. Bu'n mynychu'r gwasanaethau ym Methel yn ffyddlon cyn i afiechyd ei rwystro yn y blynyddoedd diwethaf. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i deulu.

### GWASANAETHAU
Yn ystod Gorffennaf bu'r oedfaon dan arweiniad Mr Mansel Jones, y Parchedig Evan Morgan a'r Parchedig Aled Edwards. Cawsom hefyd wasanaeth hyfryd dan ofal yr aelodau ar thema **Maddeuant**. Diolch i bawb a gymerodd ran. Yna, yn dilyn yr haf, croesawyd y Parchedig Aled Edwards atom unwaith eto.

**GOHEBYDD** . GWILYM E ROBERTS

## Salem, Rhyd y Foel

### PROFEDIGAETH
Daeth profedigaeth i ran Mona a Tudur Jones, Cefn Fran a'r teulu ym marwolaeth brawd Mona sef Gwyn W. Rees, Bryn Ffynnon, Clawddnewydd. Estynnwn ein cydymdeimlad atynt yn eu colled lem.

### CROESO
Fore Sul, Medi 1af, a'r oedfa o dan ofal y Parchg Nesta M Davies, fe ymunodd y Parchg Ddr Trevor Hoggard a'i briod â ni yn y gwasanaeth. Maent wedi dod i Gymru o Seland Newydd gan ymgartrefu yn Abergele. Y Parchg Hoggard yw Arolygydd newydd Cylchdaith Cymru; mae hefyd yn Arweinydd Ardal Dyffryn Conwy a gweinidog yn Ardal Dyffryn Clwyd. Pleser mawr i ni oedd eu croesawu a chawsom gyfle i sgwrsio ar derfyn y gwasanaeth. Dymunwn bob llwyddiant i Trevor yn ei waith ac wrth iddo ddysgu'r iaith Gymraeg, a phob bendith arno ef a Cathy yn eu cynefin newydd.

### COFION
Anfonwn ein cofion at ein blaenor a'n trysorydd, Ieuan; da yw ei weld wedi gwella yn dilyn llawdriniaeth.

**GOHEBYDD** . SIÂN PRICE

## Tabernacl, Llanfyllin

### DRWS AGORED
Ar brynhawn eithriadol o braf aeth aelodau Drws Agored ar eu trip blynyddol i Lanllugan i weld gardd Ivy a Maldwyn Evans, Belan yr Argae. Cawsom groeso cynnes iawn yno a hyfryd oedd gweld gardd Ivy yn llawn blodau lliwgar o bob math. Roedd gardd lysiau Maldwyn yn werth ei gweld hefyd, yn ogystal â'r holl lwyni ffrwythau oedd yno. Wedi treulio

## Ardal Bathafarn



### YR YSGWRN
Ar ddiwrnod arbennig o braf ym mis Gorffennaf, aeth cymdeithas Bathafarn ar daith i'r Ysgwrn.

### GWELLHAD BUAN
Anfonwn ein cofion anwylaf at Gwyn Atkinson, sydd wedi treulio wythnosau yn yr ysbyty ar ôl cael strôc; Audrey Jones a fu yn yr ysbyty yn dilyn anffawd; hefyd Susan James ac Enid Edwards a wynebodd driniaeth yn yr ysbyty.

Dymuniadau gorau yn ogystal i Brenda Roberts, y Parchg Martin Evans-Jones, Lorna Wynne, Gretta Davies, Ifor Parry, Margaret Hughes ac Eva Rogers-Jones. Da yw deall fod y Parchg Tudur Rowlands yntau yn gwella yn dilyn triniaeth.

### OEDFAON UNDEBOL
Diolch i gyfeillion y Tabernacl, Pendref, Heol y Parc a Bethania am eu croeso hyfryd i ni yn yr oedfaon undebol yn ystod mis Awst.

### DATHLU
Dymuniadau gorau i Siôn a Gwenno Hughes ar achlysur hapus eu priodas ym mis Awst. Siôn yw cyd-drysorydd newydd capel Bathafarn, ar y cyd â Lucy Williams.



**Siôn a Gwenno**

Yn ystod yr un mis hefyd, priododd brawd Siôn, Elgan, â Helen. Llongyfarchiadau calonnog iawn iddynt. Yn y llun hefyd mae Aled, Tomos a Beca ynghyd â'u hen daid, Gwyn Williams.

amser yn mwynhau yr ardd aeth pawb i lawr i Gaffi'r Orsaf yn Llanfair i fwynhau paned a chacen cyn troi am adref, wedi mwynhau prynhawn mewn ardal ddymunol o Sir Drefaldwyn.

### PRIODAS AUR

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Keith a Decia Blacker ar ddathlu eu priodas aur. Mae'r ddau yn gweithio'n galed i drefnu gweithgareddau i godi arian at Gweithredu dros Blant, ac mewn gwasanaeth arbennig yn y Tabernacl cyflwynodd Mrs Mair Ellis iddynt benillion a gafodd eu cyfansoddi gan Mr R O Hughes.

### PENBLWYDDI ARBENNIG

Dymunwn longyfarch Tom a Mair Ellis ar gyrraedd eu pen-blwydd arbennig yn 80 oed. Mae'r ddau yn hynod weithgar yn y Tabernacl ac rydym yn gwerthfawrogi eu cyfraniad a'u caredigrwydd yn y dref. Dymunwn yn dda hefyd i John, efaill Tom, ar gyrraedd yr un garreg filltir; diolch iddo yntau am ei wasanaeth i'r Tabernacl.

### COFFA DA

Tristwch o'r mwyaf i aelodau'r Tabernacl oedd clywed am farwolaeth Mair Penri ddechrau Gorffennaf. Byddai Mair yn ffyddlon iawn ei gwasanaeth i'r capel hwn a'i chenadwri bob amser yn werthfawr. Dyma englyn o waith R O Hughes a ddefnyddiwyd ar daflen angladdol Mair:-

Awr o sylwedd a gweddi yw rhinwedd
Yr hynod Mair Penri;
Duw a'i nerth a'i doniau hi
Yn dal i'n hysbrydoli.

Coffa da amdani. Roeddem wrth ein bodd yn cael ei chwmni.

### COFION

Anfonwn ein cofion cynhesaf at Eirwen Jenkins, sydd wedi symud o Gartref Llwyn Teg i'r ysbyty yn ddiweddar. Pob bendith a gwellhad buan iddi.

**GOHEBYDD** . ALWENA FRANCIS

## Ebeneser, Caernarfon

Er dirfawr dristwch i bawb, ni fydd addoliad yn Ebeneser mwyach, o Fedi 2019 ymlaen.

Bedyddiwyd Anna Gwenllian, merch fach Manon a Deiniol Jones, yn Ebeneser, Caernarfon ddiwedd mis Gorffennaf.





Elgan a Helen

Fe hoffem longyfarch yn ogystal Rona a Tom Morris, Llanrhaeadr ym Mochnant, sydd wedi dathlu 40 mlynedd o briodas eleni.

Braf iawn oedd clywed am lwyddiant Richard Jones, ŵyr Ann Jones, Plas Isaf, sydd wedi ennill Pencampwriaeth y Byd am gneifio yn Ffrainc. Gwych iawn.

### CYDYMDEIMLO

Gartref yn Rhydymeudwy, bu farw Olwen Jones. Daeth hi a'i diweddar briod, Glyn, i'r fro hon o Sir Drefaldwyn yn 1960; hithau yn wreiddiol o'r Cymdu a Glyn o Langynog. Bu'r ddau yn hynod o weithgar yng nghapel Wesle Llanelidan. Ergyd drom i Olwen fu colli ei phriod yn 2010 ac yna ei hannwyl ferch Nerys yn 2013. Mae ein cydymdeimlad yn fawr â Geraint a Christine, Bethan a Hywel, Ioan, Albert a'u teuluoedd.

Tristwch mawr hefyd oedd deall am farwolaeth Margaret Evans, Min yr Afon, cymeriad hoffus iawn oedd yn enedigol o Lanelidan. Bu'n hynod ffyddlon yng nghapel Wesle Hirwaen ac yna ym Mathafarn. Byddai bob amser wrth ei bodd yn dod i gyfarfodydd Merched Methodistaidd a bydd y chwithdod yn fawr ar ei hôl. Estynnwn ein cydymdeimlad at y teulu oll. Cydymdeimlwn yn fawr hefyd ag Audrey Jones a'r teulu o golli priod, tad a thaid annwyl sef Llew Jones, Wern Ddu gynt, Gwyddelwern. Cofiwn yn ogystal am Nia Jones, Pantrhedynog, sydd wedi colli brawd yng nghyfraith, ac Enid Edwards y bu farw ei chwaer yng nghyfraith.

**GOHEBYDD** . ELIZABETH JONES

## St Paul, Aberystwyth

### Y DIWEDDAR TREFOR LLOYD JONES



Bu farw Trefor ar 29 Mehefin yn 89 mlwydd oed. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yng Nghanolfan Sant Paul ac yn absenoldeb y Parchedig Marty Presdee trwy salwch arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parchedig Wyn Morris gyda chymorth y Parchedig Ifan Mason Davies.

Roedd Trefor yn hanu o deulu Wesleaidd ac fe'i magwyd yng Ngherrigydrudion. Aeth i'r ysgol ramadeg yn Llanrwst gan letya yn y dref drwy'r wythnos. Ym 1956 priododd ag Emily a'r flwyddyn ganlynol daethant i fyw yn Aberystwyth, gan ymuno â chapel Sant Paul lle daethant yn aelodau selog a gweithgar. Cawsant ddau blentyn, Aled a Delyth. Ymhlith ei holl weithgareddau yn y gymuned, cyfrannodd Trefor yn helaeth i Gynghrair Cyfeillion Ysbyty Bronglais a gweithiodd yn ddiflino i godi arian i'r ysbyty.

Roedd gan Trefor lais hyfryd ac roedd cerddoriaeth yn bwysig iawn iddo. Am flynyddoedd ef oedd y codwr canu yn y capel. Roedd ef ac Emily yn aelodau brwd o Gymdeithas Gorawl Aberystwyth ac fe ganai Trefor hefyd mewn grwpiau bach, yn arbennig y 'Deloniaid'. Trwy hyn i gyd rhoddodd bleser i lawer o bobl. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu.

### GWASANAETHAU

Fel arfer yn ystod mis Awst ymunodd capeli Aberystwyth ar y Sul. Cynhaliwyd gwasanaethau unedig eleni yn Seion, Bethel a Chapel y Morfa.

**GOHEBYDD** . LIONEL MADDEN



# Cofio Haf 2019





Ym mis Gorffennaf, wrth i Gweithredu dros Blant ddathlu 150 o flynyddoedd o waith yn gofalu am blant, agorwyd cartref newydd sef Tan-y-Bryn, Rhuddlan. Cafodd ei agor yn swyddogol gan y Chwaer Eluned Williams, un a roddodd flynyddoedd lawer o wasanaeth i'r mudiad.



Mrs Maryl Rees a'r Parchg Marc a Mrs Margaret Morgan yn mwynhau egwyl yn yr Eisteddfod



Mwynhau sgwrs yn y Sioe Fawr yn Llanelwedd, lle mae'r Parchg Ian Morris yn gwasanaethu fel caplan.



Mr John Huw Evans, aelod hynaf capel Pisgah, Rhiwlas, yn cymryd rhan yng ngorymdaith wladgarol 'Yes Cymru' yng Nghaernarfon

## ...a chroesawu mis Medi a Blwyddyn Gyfundebol Newydd



Y Diacon Jon Miller gyda'r Parchedigion Jennie Hurd, Flis Jepson-Randall, Stephen Wigley a Trevor Hoggard. Pob dymuniad da i Jon yn ei swydd newydd, penodiad ar y cyd rhwng Synod Cymru a Wales Synod yn Sir Gaerfyrddin. Bydd Jon yn canolbwyntio ar hybu gwaith ieuenctid a mynd â'r Efengyl allan at bobl yn y gymuned.

# Dod at ein gilydd

### *gan Dafydd Iwan*

Waeth imi roi fy nghardiau i gyd ar y bwrdd na pheidio! Rwyf newydd gael fy nghodi'n flaenor yn yr eglwys lle rwyf yn aelod, sef capel Caeathro (sy'n perthyn i'r "Hen Gorff", er nad yw hynny'n bwysig i mi). Roeddwn yn absennol pan etholwyd fi gan fy mod yn cadw oedfa mewn capeli eraill bron bob Sul, ond rwyf am dderbyn y cyfrifoldeb er nad oeddwn erioed wedi chwennych y fath swydd. "Annibynnwr" ydwyf o ran traddodiad y teulu – fy Nhad a Nhaid (a sawl ewyrth) yn weinidogion Annibynnol, ac mae gen i lawer i'w ddweud wrth yr egwyddor o roi'r grym yn nwylo'r gynulleidfa. A dyma fi rŵan yn anfon pwt o brofiad i gylchgrawn yr Eglwys Fethodistaidd, ac yn falch o gael gwneud hynny.



Beth felly am yr enwadau? Mae gan bob enwad hanes hir a phwysig, ac mae pob un wedi helpu i gynnal achos Crist, ac i daflu goleuni ar yr efengyl – pob un yn taflu goleuni ychydig yn wahanol, ond yr un yw'r efengyl. A'r un yw Duw. A chan ein bod ni wedi ein gwneud fel ydan ni, mae'n debyg y gallwn ddadlau fel Cymry oni bai am yr enwadau, mi fyddem wedi diflannu fel Cristnogion ers tro. Mae ymlyniad pawb wrth ei gapel a'i enwad yn rheswm dros ddal ati. Ond onid hynny yw dagrau pethau hefyd?

Onid oes gwir angen bellach inni ddod at ein gilydd fel Cristnogion Cymraeg i arddangos yr Achos ar ei gryfa, ac i brofi i'r genhedlaeth ifanc ein bod o ddifri? Nid sôn am gladdu nac anghofio na dibrisio'r enwadau yr wyf, ond dod â nhw gyda ni i sefyllfa newydd o gryfder a ffydd. Mae gan bob enwad rywbeth i'w gynnig, a gallwn barhau i fesur a phwyso ambell agwedd lle mae yna wahaniaeth barn. Ond onid mân lwch y cloriannau yw'r gwahaniaethau hynny o'u cymharu â neges ganolog Crist o roi Cariad ar waith creadigol yn ein cymdeithas?

Wrth fynd o gwmpas ar y Sul, byddaf yn cael fy nhristáu a'm calonogi. Fy nhristáu o weld y dirywiad amlwg mewn ambell i gapel, a'r ysgrifen yn blaen ar y mur fod y diwedd yn agos. Fy nghalonogi ar y llaw arall o weld criw bychan ymroddedig o ffyddloniaid yn bwrw iddi er gwaetha pawb a phopeth i gadw'r achos i fynd, a gobaith lond eu calonnau. Ond caf fy nghalonogi'n fwy fyth o weld ambell fan lle mae cynulleidfaoedd wedi dod ynghyd i gyd-addoli, ac i gydweithio dros achos Crist. Ac yn y mannau hynny y gwelaf y llawenydd mwyaf, a'r gobaith mwyaf disglair am y dyfodol. Mae'r awydd i ddod at ein gilydd yn cael ei fynegi ym mhobman bron, ond bod y rhwystrau ymarferol yn sefyll yn ein ffordd. Rhaid inni ddyblu ein hymdrechion i symud y rhwystrau hynny, ac erfyn ar arweinwyr ein henwadau i roi arweiniad a chymorth inni yn y gwaith.

Mae achos Crist, a'r canllawiau clir a osodwyd ganddo i ni fel pobol yn llawer pwysicach nag adeiladau a thraddodiad a manylion diwinyddol. Mae rhoi Cariad ar waith yn ein cymuned a'n byd yn llawer pwysicach na degymu'r mintys a'r anis. A dyna yw ein braint a'n dyletswydd.

# Capel Ficer

### *gan Lionel Madden*

Er imi fethu mynychu'r gwasanaeth olaf yng Nghapel Ficer ym mis Mai, gwaetha'r modd, daeth gweld y llun o'r gynulleidfa tu allan i'r capel yn rhifyn diwethaf y *Gwyliedydd* ag atgofion melys o fynd i bregethu yn y capel bach arbennig hwnnw yn y 1980au a'r 1990au. Dechreuais bregethu yn Gymraeg dan anogaeth y diweddar Barchedig Daniel Davies yn Hydref 1979 ac yn raddol cefais y fraint o arwain gwasanaethau ym mhob capel yng Nghylchdaith Aberystwyth. O'r tro cyntaf imi fynd yno roedd gan Gapel Ficer le arbennig yn fy nghalon. Cynhelid y gwasanaeth am 6.30 yr hwyr ac fel arfer rhyw hanner dwsin ohonom oedd yn bresennol. Roedd y canu bob tro yn fendigedig gyda llais hyfryd Miss Valmai Davies yn ein harwain o'i sedd yn y cefn. Wna i byth anghofio sefyll yn y pulpud ar noson heulog o haf ac edrych allan trwy'r ffenestri clir dros y caeau a theimlo rhyw dawelwch a heddwch rhyfeddol. Cofiaf hefyd ddigwyddiadau doniol fel y Sul pan fethodd fy llais yn ystod y bregeth a Valmai yn gorfod mynd i dŷ cyfagos i chwilio am ddŵr gan ddychwelyd gyda gwydr lager mawr yn ei dwylo.

Miss Valmai Davies a Miss Neli Davies oedd conglfeini Capel Ficer. Byddent yn bresennol ym mhob gwasanaeth, gan gynnal Ysgol Sul fach yn y capel bob prynhawn Sul hefyd. Roedd Neli yn hoff o ysgrifennu llythyrau i'r *Gwyliedydd*. Rwyf wedi cadw un ohonynt a gyhoeddwyd yn Chwefror 1991 lle mae'n sôn am gyn-weinidogion a fu â chysylltiad â Chapel Ficer. Gyda'r llythyr ceir llun o'r capel gyda Neli a Valmai yn sefyll o'i flaen yn edrych allan ar y fynwent hardd sy'n ei amgylchynu. Cofiaf sefyll yno wedi gwasanaeth a Valmai yn tynnu fy sylw at y tegeirianau sy'n tyfu yno.

O'r cychwyn cyntaf cefais groeso mawr gan Neli a Valmai gyda gwahoddiad i fynd i swper gyda nhw yn nhŷ Neli. Tŷ hanesyddol, llawn cymeriad oedd gan Neli. Gallaf ei gweld yn awr yn eistedd yn ei chadair mewn cornel o'r ystafell fyw gyda'i llyfrau ar y silffoedd o'i chwmpas. Dros swper byddem yn sgwrsio a dyna ble dysgais lawer am hanes y Wesleaid, am y pregethwyr enwog yr oeddent wedi'u clywed, ac am lenyddiaeth Gymraeg gan gynnwys Waldo, arwr mawr Neli. Roedd y nosweithiau hyn yn bleser pur ac yn addysg i mi fel Sais oedd wedi dod i fyw yng Ngheredigion.

Trist iawn oedd mynd gyda Valmai i ymweld â Neli yn yr ysbyty yn Aberteifi ac wedyn yn y cartref preswyl lle'r hiraethai yn ei dyddiau olaf am ei chartref a'i chapel. Yn ôl ei dymuniad cafodd ei chladdu ym mynwent y capel.



**Llythyr at y *Gwyliedydd***
Annwyl Olygyddion
Braf oedd darllen llythyr Sheila Thomas yn y rhifyn diwethaf, yn sôn am Eglwys Salem yng Nghaerdydd, sydd yn agor eu drysau un noson yr wythnos i'r digartref. Ia, crefydd ymarferol ar ei gorau, sef yr hyn yr oedd yr Arglwydd Iesu'n ei bregethu'n ddi-baid.

Bûm yn meddwl hefyd am eiriau Angharad Tomos yn y *Gwyliedydd* diwethaf. Cytunaf yn llwyr â'r hyn a ddywedodd – nid oes ots gan Dduw ble rydym ni'n addoli. Daeth i'r cof eiriau Tennyson (os cofiaf yn gywir!) a gyrhaeddodd gopa Moel Famau ger Rhuthun a dweud, wrth edrych ar y golygfeydd godidog o Ddyffryn Clwyd: "Well done, God!". Fel y dywedodd Angharad, yr un Duw ydyw a'r unig beth sy'n cyfrif yw ein bod yno, ble bynnag y bo hynny, gydag Ef.

Gyda chofion cywir,
Elizabeth Jones


# Gair gan Nia Rhosier

Ers sefydlu'r Ganolfan Undod ac Adnewyddiad Cristnogol yma ym Mhontrobert, mae Cristnogion y pentref wedi fy nghefnogi gyda gweithgareddau'r Ganolfan yn garedig iawn bob amser, yn arbennig ar achlysuron fel cofio 'diwrnod' Ann Griffiths ar 12 Awst yn flynyddol, a'r Plygain ar fore'r Nadolig.

Rhaid cyfaddef na ddeallaf enwadaeth. Onid bod yn UN yng Nghrist yw bod yn Gristion? I mi mae hynny'n hollol gyson â 'nghred yng ngweinidogaeth y cymod. Yn y degawd diwethaf, mae'r tri chapel Cymraeg (Wesleaidd, Presbyteraidd, Annibynwyr) ym Mhontrobert wedi cau a'u gwerthu, a dyna pryd y credais fy mod wedi dirnad yn llawn bwrpas Duw yn fy arwain i sefydlu'r Ganolfan yma yn Hen Gapel John Hughes. Ond siom fu canfod bod y Presbyteriaid wedi symud i bentref cyfagos a'r ddau arall wedi dewis cydaddoli yn neuadd y pentref. Mor wahanol fuasai hanes Hen Gapel John Hughes pe bai'r pres a gafwyd am y tri chapel wedi ei wario ar yr adeilad hanesyddol hwn! Ni fyddem yn straffaglu i godi £80,000 at apêl y to. Ond yn wyneb pob siom daliwn i obeithio y gwelir rhyw ddydd wireddu geiriau Ioan 17:21 "...ar iddynt oll fod yn Un".

# O'R LLAN

## *gan y Canon Idris Thomas*



### *Eglwys fel aderyn gyda dwy adain*

Ysgrifennaf hyn o lith yng nghanol Awst, yn y cyfnod a elwir yn y byd newyddiadurol yn ddyddiau'r cŵn neu'r tymor dwl. Ta waeth am y disgrifiad, deuthum ar draws sawl peth sylweddol i gnoi cil arnynt. Un mater aeth â'm sylw oedd ehangu. Yn Esgobaeth Rhydychen, mae cynlluniau i sefydlu 750 o gynulleidfaoedd addoli newydd fel y bydd cyfle, yn ôl Esgob Rhydychen, i gynnwys pobl nad yw'r Eglwys draddodiadol yn cyffwrdd â hwy o gwbl am amryw resymau. Disgwylir i fewnlifiad enfawr, sef poblogaeth yr un faint â Chaeredin, symud i'r Esgobaeth yn ystod y 15 mlynedd nesaf yn sgil datblygu tai newydd ar raddfa fawr. Yn wyneb hyn, mae'r Esgobaeth yn syth bin y mis hwn wedi penodi yr hyn a elwir yn "Gyfarwyddwr Cynulleidfaoedd" er mwyn mynd i'r afael â'r datblygiad. Y nod fydd coleddu cynulleidfaoedd newydd gyda mynegiant ffres o Eglwys, gan eu plannu yn sensitif yma ac acw.

Bydd yr Eglwys, yn ôl Esgobaeth Rhydychen, fel aderyn gyda dwy adain – un adain yw'r Eglwysi plwyfol traddodiadol presennol a'r adain arall yw'r Eglwysi plannu gwahanol fydd yn dod i fodolaeth. Mae'n gynllun uchelgeisiol ac fe all gynnwys rhyw ddwsin o bobl dyweder yn cyfarfod yn ystafell ffrynt unrhyw dŷ, neu rywbeth tebyg i'r hyn a ddigwyddodd yn Ealing, Llundain lle tyfodd cynulleidfa o 80 allan o gegin cawl gan ffurfio'r hyn a elwir bellach yn Gaffi Eglwys. Ar y dechrau ni fwriedir hyfforddi neb yn yr Eglwysi plannu newydd gogyfer â bedyddiadau a chonffyrmasiwn ac ati. Y norm, yn hytrach, fydd gwrando ar y gymuned a chreu awyrgylch o berthyn, pobl yn dod i wybod beth yw ystyr bod yn ddisgybl. Mae hyn oll ar waith yma yng Nghymru yma ac acw yn ôl a ddeallaf. Beth yw eich barn?

### *Cicio'r bêl i'w rwyd ei hun*

Mae tymor pêl-droed arall wedi hen gychwyn ac mae un o sêr y gêm wedi corddi'r dyfroedd. Ar ddechrau Ionawr 2020 bydd Wayne Rooney yn ymuno â thîm Derby County ond cyn iddo gicio pêl iddynt mae Esgob St Albans yn blwmp ac yn blaen wedi mynegi y dylai Rooney roi budd ei ddilynwyr yno o flaen ei falans banc! Daeth datganiad yr Esgob ar ôl clywed fod y chwaraewr wedi cael rhif ar gyfer ei grys newydd sy'n cyd-fynd â noddwr newydd y Clwb sef cwmni gamblo "32 Red". Gwnaeth yr Esgob ei ddatganiad yn dilyn anfodlonrwydd mawr a galw am gyfyngu ar hysbysebu gamblo. Yn Synod Eglwys Loegr yn gynharach eleni pasiwyd cynnig i ofyn i Lywodraeth San Steffan leihau yr holl hysbysebu yn ymwneud â gamblo. Da oedd clywed fod y Gweinidog Chwaraeon yn deall yr holl feirniadaeth a gafodd Wayne Rooney a Derby County, gan ychwanegu fod ei grys rhif "32 Red" yn rhywbeth cyfrwys iawn, ac y dylai'r clwb edrych o ddifrif ar y sefyllfa ac effaith y cyfan yn enwedig ar bobl hawdd eu niweidio a'r ifanc. Newydd da a diddorol yw fod gwraig Wayne Rooney sef Coleen yn gwbl anhapus fod ei gŵr am wisgo crys ac arno hysbyseb gamblo. Yn ôl Coleen bydd y crys yn rhoi neges negyddol i lawer o'r cefnogwyr yn arbennig plant. Mae Esgob St Albans, Dr Alan Smith, wedi gofyn am Ymholiad yn Nhŷ'r Arglwyddi i'r cysylltiad rhwng gamblo a chwaraeon. "Newid dy grys, Wayne" yw'r gri, felly.

# 'Cerddoriaeth ar gyfer Bywyd'

***gan Gareth Blainey***




Dyna sut rydw i wedi cyfieithu "Music for Life", teitl llyfr gan feirniad cerddoriaeth glasurol papur Sul yr *Observer,* Fiona Maddocks. Soniais i yn y golofn hon yng Ngwyliedydd Mehefin-Gorffennaf 2017 fy mod yn mwynhau darllen y llyfr a dwy flynedd yn ddiweddarach rydw i'n dal i'w fwynhau. Nid fy mod yn ddarllenwr hynod o araf! Llyfr y gellir darllen pytiau ohono yn hytrach na llyfr sy'n rhaid ei ddarllen o glawr i glawr ydy hwn. Mae'r awdur wedi dewis cant o ddarnau o gerddoriaeth glasurol sydd wedi gwneud argraff arni ac wedi ysgrifennu am gynnwys a chefndir y darnau hynny ac am eu cyfansoddwyr. Mae hi hefyd wedi gosod y gweithiau mewn categoriau yn ôl eu themâu neu'r emosiynau sy'n cael eu cyfleu ynddyn nhw. Nod y llyfr ydy ysgogi'r darllenwr i wrando ar y gerddoriaeth dan sylw sy'n anghyfarwydd iddo/iddi, a dyna wnes i ar ôl darllen am ddau ddarn corawl gan Johann Sebastian Bach nad oeddwn i wedi'u clywed o'r blaen.

Un o'r ddau yma yn y categori "Grief, Melancholy, Consolation" yn y llyfr ydy "Gottes Zeit ist die allerbeste Zeit" (Amser Duw ydy'r gorau o bob amserau). Gwaith i unawdwyr soprano, alto, tenor a bas, côr SATB a chyfeiliant yn cynnwys dau recorder ydy hwn. Mae hi bron yn sicr mai ar gyfer angladd y cyfansoddodd Bach y darn, o bosibl angladd ei ewythr Tobias Lämmerhirt ym mis Awst 1707. Dim ond dwy ar hugain oed oedd Bach bryd hynny ond roedd ei dad a'i fam wedi marw, felly dim rhyfedd fod y gerddoriaeth yn y gwaith hwn yn ddwys ar adegau.

Mewn gwrthgyferbyniad llwyr, llawenydd yn unig ydy'r emosiwn yn y darn arall ganddo yn y categori "Alive, Overflowing" yn y llyfr, sef "Singet dem Herrn ein neues Lied" (Canwch i'r Arglwydd gân newydd). Dyna ran o adnod o Salm 149 ac mae'r gwaith yma a gyfansoddwyd yn y 1720au i ddau gôr SATB mewn wyth llais yn defnyddio adnodau o weddill y salm honno ac o Salm 150 hefyd. Cafodd Wolfgang Amadeus Mozart ei wefreiddio wrth ei glywed am y tro cyntaf ym 1789. Yn ôl llygad-dyst pan ddaeth y perfformiad i ben gwaeddodd Mozart: 'Dyna rywbeth y gall rhywun ddysgu ohono'.

Os ydych chi eisiau clywed "Singet dem Herrn..." a "Gottes Zeit..." mae perfformiadau penigamp o'r ddau ddarn ar wefan YouTube.

# Wrth fynd heibio

***gan William H Owen***



Does gen i fawr i'w ddweud wrth drafod yr Eisteddfod Genedlaethol am byth ar ôl iddi fod. Eto, am y tro rydw i am fynd yn groes i fy rhagfarnau fy hun a chodi Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy eleni yn destun, o leiaf un agwedd ohoni.

Mi fydda' i'n prynu *Rhaglen y Dydd* yn ddeddfol er mwyn gweld a oes rhywbeth at fy nant. Digon ychydig yw'r ateb yn aml iawn gan nad wyf yn eisteddfodwr pafiliwn. A waeth i mi gyfaddef, fydda' i ddim yn cyrraedd y pethau fydd yn apelio at fy chwaeth yn amlach na pheidio am fod sgwrs gyda hen gydnabod ar y maes wedi mynd ag amser.

Eleni, mi sylwais yn syth nad oedd sôn gair am 'Oedfa' yn y pafiliwn. Doedd y gair 'oedfa' ddim yn ymddangos yn *Rhaglen y Dydd* hyd y gwelwn i, ac mi es drwyddi'n fanwl. Na, cystadlu a wneid o fore Sul tan ychydig cyn y Gymanfa am wyth o'r gloch.

Rhywsut neu'i gilydd mi ddeallais mai yn nhref Llanrwst y byddai'r Oedfa y tro hwn a chapel Seion oedd yn cael y fraint o'i chynnal. Y llynedd yn y Bae roedd wedi symud i'r Babell Lên yng Nghanolfan y Mileniwm. A'r Gymanfa yn y bore. Eleni roedd y cam o wthio'r gwasanaeth crefyddol bore Sul o 'lwyfan y genedl' wedi digwydd – fel 'na. Ers rhai blynyddoedd mae tipyn o stwyrian wedi bod ynglŷn â sut y mae caniatáu eisteddfodwyr i'r Maes ar gyfer y gwasanaeth. Bu dilidalio: a oedd angen talu; a oedd angen tocyn ymlaen llaw? Bu'n amlwg yn faen tramgwydd i'r Sanhedrin Eisteddfodol, chwedl y diweddar Gwilym Owen. (A chwithig iawn yw gorfod sôn amdano fel dyn y gorffennol.)

Er eu bod wedi llwyddo i drefnu oedfa, prin oedd y manylion amdani. Welais i ddim crybwyll ohoni ym mhabell yr eglwysi. Doedd hyd yn oed un o Gymrodyr yr Eisteddfod ddim yn gwybod pryd yr oedd yn dechrau. Gofynnodd y Dr R Alun Evans y cwestiwn i'w 'ffrindiau' ar Facebook a wydden nhw mo'r ateb. Ymhen dim o dro cafodd wybod mai am ddeg o'r gloch oedd hynny. Gofynnais innau iddo ble oedd y lle parcio. 'Sgeniddimsyniad' oedd ei ateb!

Ches i ddim prawf ar y parcio gan mai penderfynu aros gartref a wnes i a gwrando ar y gwasanaeth ar y radio. Roedd John Roberts ar 'Bwrw Golwg' wedi rhoi rhagflas da ohono. Mewn capel llawn aed ati i sôn am y tlodion a'r newynog yn ein byd, cyflwyniad dramatig gan bobl y fro lle rhannwyd bara i'r gynulleidfa. Ond pan gafodd ei ddarlledu yn y diwedd aeth yr awr a roddwyd iddo'n wreiddiol i lawr i ddeugain munud.

O leiaf rhoddwyd lle iddo ar y radio. Ni chlywyd yr un gair ar y teledu am yr hyn a oedd ar un adeg yn rhan annatod o'r Brifwyl. Gawn ni weld ai felly y bydd hi hefyd yn Nhregaron neu a fydd y Gymanfa hithau wedi diflannu erbyn hynny?

Lluniau: Richard Gunther






# TUDALEN Y PLANT

Mae'r ffermwr yn aros yn amyneddgar i'w gnwd dyfu. Mae'n hapus pan ddaw'r glaw, oherwydd mae'n rhaid i bob dim sy'n tyfu gael dŵr. Wedyn bydd y ffermwr yn cael cynhaeaf.





Cysyllta'r dotiau i wneud llun rhywbeth arall sy'n hollbwysig er mwyn i bopeth dyfu.



Mae'r Beibl yn dweud wrthym am wneud daioni i bawb, wedyn bydd mwy o ddaioni yn digwydd o hyd. Mae hyn yn debyg i gynhaeaf.

"Dylen ni byth flino gwneud daioni. Os gwnawn ni ddal ati daw'r amser pan fyddwn ni'n medi cynhaeaf o fendith." Gal. 6:9 beibl.net

